**Dyddiad:** **Dydd Mercher 26 Chwefror 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Bwrsariaethau Hyfforddi Nyrsys**

## Diben

1. I'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi:

- Manylion yr Ymddiriedolaethau sydd wedi mabwysiadu'r cynllun bwrsariaeth ar gyfer hyfforddi nyrsys, yn unol â'r cais a ddeilliodd o drafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Rhagfyr 2002. Mae cofnodion HSS-22-03 yn cyfeirio at hyn.

## Cefndir Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru

2. Mae Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn darparu pecyn cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd wedi ennill lleoedd ar gyrsiau proffesiynol iechyd yng Nghymru a ariennir gan y GIG. Mae prawf modd ynghlwm wrth fwrsariaethau ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol fel awdiolegydd, ciropodydd, glanweithiwr deintyddol, therapydd deintyddol, dietegydd, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, radiograffydd a therapydd lleferydd ac iaith. Mae bwrsariaeth heb brawf modd ynghlwm wrth y cyrsiau hynny sy'n arwain at gofrestriad fel nyrs neu fydwraig mynediad uniongyrchol. Ers mis Medi 2002 mae myfyrwyr meddygol a deintyddol wedi bod yn gymwys i dderbyn bwrsariaethau gyda phrawf modd ar gyfer pumed flwyddyn eu cwrs a thu hwnt. Nid yw’r myfyrwyr sy’n derbyn bwrsariaethau ynghlwm wrth Ymddiriedolaeth benodol nac yn cael eu cefnogi ganddynt.

- **Bwrsariaeth gyda phrawf modd**

Mae hawl gan fyfyrwyr cymwys gael grant sylfaenol o £2,148 am gyfnod o 30 wythnos, sef y flwyddyn academaidd safonol, yn ogystal â swm o £69 yr wythnos am bob wythnos ychwanegol. Mae'n bosibl y gall myfyrwyr sydd â phobl yn dibynnu arnynt a myfyrwyr sydd dros 26 oed ar ddechrau eu cwrs gael grantiau pellach. Gall y fwrsariaeth gyda phrawf modd leihau swm yr arian sydd ar gael yn dibynnu ar yr asesiad o incwm rhieni neu briod y myfyriwr. Telir ffïoedd dysgu pob myfyriwr yn llawn. Mae'r myfyrwyr sydd yn cael bwrsariaeth gyda phrawf modd hefyd yn gymwys i gael benthyciad myfyriwr gwerth £1915 bob blwyddyn academaidd.

- **Bwrsariaeth heb brawf modd**

Mae hawl gan fyfyrwyr cymwys gael grant sylfaenol o £5432 y flwyddyn. Mae'n bosibl y gall myfyrwyr sydd â phobl yn dibynnu arnynt a myfyrwyr sydd dros 26 oed ar ddechrau eu cwrs gael grantiau pellach. Telir ffïoedd dysgu pob myfyriwr yn llawn.

**Y sefyllfa o ran bwrsariaethau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru**

3.**Nid yw'r** Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn derbyn taliadau bwrsariaeth; yn hytrach maent yn derbyn cyllid gan y Cynulliad i ariannu prosiectau hyfforddi nyrsys.

4. Mae'r Cynulliad yn ariannu Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru er mwyn iddynt redeg cynllun Menter Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Mae'r fenter yn galluogi cynorthwywyr nyrsio i fynd ar gyrsiau nyrsio rhag-gofrestredig trwy ddarparu cymorth ariannol i'w cyflogwyr yn ystod y cyfnod hyfforddi. Mae cyllid ar gael hyd at fwyafswm o £15,000 i dalu am neu gyfrannu at gyflog y staff hynny a enwebwyd gan yr Ymddiriedolaeth i gofrestru ar y cynllun. Mae dau gyfnod ymuno bob blwyddyn – un ym mis Mawrth a’r llall ym mis Medi. Ni thelir bwrsariaethau i fyfyrwyr ar y cynllun hwn. Mae cyllid o’r Cynulliad yn mynd yn uniongyrchol i’r Ymddiriedolaethau ac yn eu galluogi i barhau i dalu cyflog eu gweithiwyr cynorthwyol yn ystod cyfnod eu hyfforddiant. Serch hynny mae hawl gan y myfyrwyr hyn gael y cymorth ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr Prosiect 2000, sydd yn bennaf yn ad-dalu costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â lleoliadau clinigol. Mae pob Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn defnyddio’u cyllid yn llawn.

Mae hawl gan y myfyrwyr hefyd i gael lwfans llyfrau sydd gwerth £55 ar hyn o bryd. Mae'r Fenter Cymorth Gweithiwr Gofal Iechyd hefyd wedi ei sefydlu fel rhan o gynllun peilot ar gyfer cyflogwyr sy'n gweithio gyda Phrifysgol Cymru Bangor a Phrifysgol Morgannwg, er mwyn cynnig gwell cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gwrs rhan amser i hyfforddi nyrsys. Gall Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd hyfforddi yn rhan amser a chadw eu swyddi.

5. Yn ail, mae'r Cynulliad wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â chyflogwyr y GIG ac maent wedi buddsoddi mewn cyrsiau 'Nôl i'r Gwaith' ar gyfer Nyrsys a Bydwragedd. Nid yw rhai nyrsys a bydwragedd wedi eu cofrestru bellach oherwydd iddynt gymryd toriad o'u gwaith am o leiaf 5 mlynedd. Diben y cwrs hwn yw rhoi cyfle iddynt hyfforddi a diweddaru eu sgiliau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ailafael yn y gwaith cyn iddynt ailgofrestru ar y Gofrestr Broffesiynol. Hyd yn hyn mae'r Cynulliad wedi rhoi £1,000 o gymorth ariannol i bob un sy'n dychwelyd i'r gwaith tra'n ailhyfforddi. Mae cymorth gofal plant hefyd ar gael lle y bo angen. Mae o leiaf 345 o nyrsys (gan gynnwys rhai bydwragedd) wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, ac mae hyn wedi eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith.

**Ystyriaethau / Crynodeb**

6. Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn nifer y nyrsys sy'n cael eu hyfforddi. Ym

1999/00 roedd 2,600 o nyrsys yn hyfforddi yng Nghymru. Erbyn 2002/03 mae'r nifer sy'n hyfforddi wedi cynyddu 35% i 3,500. Bydd y Cynulliad yn comisiynu 1,367 o leoedd hyfforddi nyrsys newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2003/04.

7. Nodwyd mai 3.5% y flwyddyn yw cyfradd y myfyrwyr sy'n penderfynu rhoi'r gorau i'w cwrs, ac mae hyn yn ostyngiad dramatig o'r ffigurau blaenorol o 6.1%. Mae anawsterau ariannol a gofal plant yn rai o'r rhesymau a roddir i esbonio pam fo myfyrwyr yn rhoi'r gorau i hyfforddi. Mae Recriwtio a Chadw - Strategaeth ar gyfer GIG Cymru yn tynnu sylw at gynlluniau'r Cynulliad ar gyfer gwella trefniadau gofal plant.

8. Ym mis Medi 2001 gwelwyd cynnydd o 10.4% yn y fwrsariaeth sydd ar gael i fyfyrwyr nyrsio, bydwragedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Dyma oedd y cynnydd mwyaf i fyfyrwyr y GIG yn y blynyddoedd diweddar. Ym mis Medi 2002, gwelwyd cynnydd pellach o 2.4% yn y bwrsariaethau i fyfyrwyr. Yn y pen draw bydd y buddsoddiad ariannol hwn yn annog mwy o fyfyrwyr i wneud cais am gyrsiau hyfforddi a bydd hefyd yn sicrhau y bydd mwy o fyfyrwyr yn cwblhau eu cyrsiau.

9. Rhaid gweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn darparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Er mwyn annog hyn mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag ymgynghorwyr addysgiadol a chyflogwyr y GIG i ddatblygu elfennau o ddysgu rhyng-broffesiynol a hyfforddiant craidd cyffredinol. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod digon o weithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ddiwallu'r anghenion staffio a nodwyd yn y cynlluniau ar gyfer y gweithlu. Bydd ehangu capasiti'r sefydliadau addysg uwch a lleoliadau clinigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ogystal â chynnal mentrau i gynyddu mynediad i gyrsiau a darparu llwybrau gwahanol i ennill cymwysterau proffesiynol.

**Cydymffurfio**

10. Rhoddir y Cyfarwyddiadau gan weithredu'r pwerau o dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac adrannau 2(b) ac 17(1) o Ddeddf y GIG 1977. Trosglwyddwyd y pwer hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac fe'i dirprwywyd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o'r papur hwn. Mae Is-adran Cyllid y GIG (DJS319) wedi nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad.

**Themâu trawsbynciol**

12.i) Gweithredu'r newidiadau sy'n deillio o Gynllun GIG Cymru.
ii) Gweithredu 'Gwireddu'r Potensial', Fframwaith Strategol ar gyferNyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru;

iii) Gweithredu 'Recriwtio a Chadw - Strategaeth ar gyfer GIG Cymru;
iv) Datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ym maes addysg rhyngbroffesiynol ac amlbroffesiynol a hyfforddiant
v) Newidiadau yn y modd y gwarentir ansawdd addysg a hyfforddiant broffesiynol ledled y DU.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi cynnwys y papur hwn.

**JANE HUTT**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yr Enw Cyswllt os hoffech ragor o wybodaeth ar bolisi yw Mrs Irene Allen, ffôniwch 029 20825366 neu e-bostiwch irene.allen@wales.gsi.gov.uk. Am wybodaeth bellach am fwrsariaethau ffoniwch Mr Alan Sims ar 029 20261495 neu e-bostiwch alan.sims@wales.gsi.gov.uk. Am wybodaeth bellach am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth cysylltwch â Martin Riley ar 029 20826406 neu e-bostiwch martin.riley@wales.gsi.gov.uk.